

Cynllun yr Iaith Gymraeg

Fel y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru mae gan y Cyngor Gynllun iaith. Yn ôl y gyfraith, mae gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yng Nghymru a gallwch ddewis y naill neu'r llall pan fyddwch yn cyfathrebu gyda'r Cyngor. Er mai'r nod yn y tymor hir yw cael swyddogion sy'n siarad Cymraeg ym mhob un o'n canolfannau nid ydym wedi llwyddo i gyflawni hynny eto, ond lle bo'n bosibl, cewch eich rhoi mewn cysylltiad â swyddog sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg yn dibynnu ar yr iaith a ddefnyddioch wrth siarad neu ysgrifennu atom.

Dylai holl ddeunydd cyhoeddusrwydd y Cyngor e.e. posteri, taflenni ac ati, fod yn ddwyieithog neu ar gael yn y ddwy iaith. Os ydych yn ysgrifennu atom byddwn yn eich ateb yn y Gymraeg neu Saesneg yn ôl iaith eich llythyr chi. Os ydych yn siarad â ni dros ffôn yn y Gymraeg neu Saesneg dylech gael eich cysylltu â swyddog sy'n siarad yr un iaith lle bo hynny'n bosibl.

Mae C2C yn cynnig gwasanaeth cyfan gwbl ddwyieithog. Cysylltwch â C2C mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth neu ymholiad (mae yna rifau gwahanol ar gyfer gwasanaeth Cymraeg neu Saesneg)

Ar ddiwrnod eich ymweliad, bydd Swyddog y Cyngor yn cynnig y Pecyn Croeso i Denantiaid i chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os ydych yn dewis Cymraeg byddwn yn sicrhau lle'n bosib eich bod yn derbyn gwasanaeth Cymraeg yn y dyfodol.

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni

